Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cylchlythyr Buddsoddi a Monitro

Diweddariad: Medi 2026

Mae'r cylchlythyr hwn yn seiliedig ar ymholiadau gan y sector ac unrhyw ddiweddariadau perthnasol gan Medr. Rydym yn croesawu adborth ar fformat y cylchlythyr hwn yn: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Pe hoffai eraill gael y cylchlythyr, gofynnwch iddynt gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.

Diweddariadau cyffredinol

Diweddariad

- Neges atgoffa i ddefnyddwyr: Mae Adroddiadau Hysbysu Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn cynnwys botwm ‘yn ôl’ sy'n galluogi defnyddwyr i ddychwelyd at yr adroddiad gwreiddiol ar ôl ymchwilio'n ddyfnach i wybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â dysgwyr neu raglenni.



- **Sesiynau ar Gasglu Data Ôl-16**

  Bydd Medr, efo cynrychiolwyr o Llywodraeth Cymru yn bresennol, yn cynnal cyfres o sesiynau ar-lein ar gyfer staff awdurdodau lleol a rheolwyr data ysgolion. Bydd y sesiynau'n ymdrin â gofynion casglu data ôl-16, ansawdd data, trefniadau cyllido, a chyfleoedd i ofyn cwestiynau a rhannu adborth.

Dyddiadau: 29 Medi; 5 a 6 Hydref 2026 (bydd opsiwn dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ar gael).

Cofrestrwch drwy lenwi'r ffurflen gofrestru ar gyfer Casglu Data Ôl-16:

Casglu Data Ôl-16/ Post-16 Data Collection – Llenwi'r ffurflen

Cyllid amser llawn

- Dim diweddariadau gan y sector.

Cyllid rhan-amser

Cymwysterau Cyfrif Dysgu Personol Newydd eu Cymeradwyo

Cyf. Nod Dysgu OfQual	Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru	Teitl	Cod y Rhaglen (LP74)
P0000837	P0000837	CompTIA DataAI	9700QXXV

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

- Caiff y dystysgrif gwariant ar gyfer cyflawni ac ymgysylltu ei rhannu yn ystod yr wythnos yn dechrau 14 Hydref a bydd yn rhaid ei dychwelyd erbyn dydd Llun 5 Tachwedd.

Panel Cymwysterau Cyfrif Dysgu Personol a Chymwysterau Galwedigaethol

- Bydd y Panel yn treialu cynnal cyfarfodydd bob yn ail fis ar gyfer 2026/27, am fod llawer o gyfarfodydd wedi cael eu canslo yn 2025/26. Caiff hyn ei adolygu yn ystod haf 2027 er mwyn gwneud unrhyw newidiadau parhaol.

- Mae'r terfynau amser presennol ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid ar gyfer cymwysterau newydd i'w gweld isod. Os bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r dyddiadau hyn, byddwn yn cynnwys diweddariad yn y cylchlythyr cynharaf posibl.
    - Dydd Mercher 16 Medi 2026
    - Dydd Mercher 18 Tachwedd 2026
    - Dydd Mercher 20 Ionawr 2027
    - Dydd Mercher 17 Mawrth 2027
    - Dydd Mercher 19 Mai 2027
    - Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2027

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Prosiectau Arbennig

Mae bellach yn amser cyflwyno'r dogfennau monitro canlynol ar gyfer 2025/26:

- Dylid cyflwyno dogfennau **Cyllid Pontio 2025/26** i Medr **erbyn 30 Medi 2026.** Dylai hyn gynnwys:
    - Ffurflen Monitro a Gwerthuso Cyllid;
    - Tystysgrif Gwariant.

Mae'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r dogfennau monitro canlynol ar gyfer 2025/26 bellach wedi mynd heibio:

- Dylai'r dogfennau **Cyllid Adfer a Chynnydd Dysgwyr 2025/26** fod wedi cael eu cyflwyno i Medr **erbyn 31 Awst 2026.** Dylai hyn gynnwys:
    - Ffurflen Monitro a Gwerthuso;
    - Datganiad o Wariant.

Anfonwch bob dogfen i: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru

CDY/ADY

- Dim diweddariadau gan y sector y mis hwn.

Sgiliau Byw'n Annibynnol

- Cofiwch gwblhau **Atodiad E. Dysgwyr o Raglenni Prif Ffrwd sy'n cael Mynediad i ddarpariaeth Llwybr 4**.

Anfonwch bob dogfen i: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru